**Rhestr Wirio Adolygu Datblygiad Proffesiynol (ADP)**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu canllawiau newydd ynghylch sut y bydd ysgolion yn dehongli Rheoliadau Arfarnu Athrawon Ysgol (Cymru) 2011. Cyfeirir at hyn bellach fel Adolygiad Datblygiad Proffesiynol (PDR) yn hytrach na Rheoli Perfformiad.

Bydd yn rhaid i Bolisïau ADP sy'n dderbyniol i NASUWT gynnwys pob un o'r datganiadau canlynol:

1. Bod yr ADP yn broses ddatblygiadol, ac y bydd y broses a'r ysgol yn cefnogi llesiant ymarferwyr drwyddi draw.
2. Bod yr ysgol yn cyflawni amser, cyfleusterau ac adnoddau addas o fewn Amser Cyfeiriedig i athrawon fedru ymgymryd â phob agwedd o'r ADP, gan gynnwys:

    - Adlewyrchu ar, a chynllunio eu datblygiad proffesiynol;
    - Cyfarfod â'r Partner Datblygiad Proffesiynol i drafod a chynllunio;
    - Cydweithio gyda cydweithwyr, a
    - Mynychu a chael mynediad at gyfleoedd Datblygiad Proffesiynol.

    Ni ddylai Cyfarfodydd ADP gael eu cynnal yn ystod egwyl, amser CPA neu amser cinio neu y tu allan i'r diwrnod ysgol a amserlennwyd (oni bai bod hyn yn cael ei gyfrif yn y calendr cyhoeddedig a'i fod o fewn yr Amser a Gyfarwyddir).

    Nad oes mwy na 3 blaenoriaeth datblygu ADP wedi eu cytuno mewn cylch blynyddol
3. Bod blaenoriaethau datblygu ADP yn ystyried dyheadau proffesiynol yr athro.
4. Nad oes gofyniad i athrawon roi tystiolaeth yn erbyn pob disgrifydd o'r Safonau Proffesiynol i Athrawon. Hynny yw, nid rhestr wirio i fesur perfformiad athro yn ei herbyn fydd y Safonau, ond yn hytrach y tirwedd y mae pob athro'n gweithio ynddi.
5. Bod 'Perchnogaeth' yn un o werthoedd allweddol ADP ac y bydd athrawon yn perchnogi eu taith dysgu proffesiynol eu hunain gyda'u Partner Dysgu Proffesiynol.

6. Bod y ffordd y ceir tystiolaeth o ddatblygiad yn cael ei gasglu yn briodol i flaenoriaethau datblygu'r athro, fel y cytunwyd gyda'r Partner Datblygiad Proffesiynol.

   Mae gofyniad statudol i'r Partner ADP arsylwi'r athro o leiaf unwaith yn ystod y cylch adolygu. Cyngor NASUWT yw na ddylai fod mwy na thri digwyddiad arsylwi yn y flwyddyn academaidd, pob un yn para dim mwy nag awr. Dylai nifer yr arsylwadau gwersi a wneir fod yn ddigon i wneud dyfarniad gwybodus yn unig, a'u bod yn gymesur ag angen o ran yr amcanion a osodwyd ac os yw'r gwerthusai yn gweithio'n llawn amser neu'n rhan amser. Nid yw pob blaenoriaeth datblygu yn gofyn am arsylwi gwersi, teithiau dysgu, craffu ar lyfrau ac ati i'w dystiolaethu.

7. Y bydd y Partner ADP yn athro â SAC sydd â phrofiad priodol ac, yn y rhan fwyaf o achosion, yn rheolwr llinell yr athro.

8. Bydd athrawon yn gallu cytuno ar Bartner ADP amgen mewn rhai amgylchiadau.

9. Rhaid i'r polisi feincnodi y prif ddyddiadau, weithdrefnau a digwyddiadau yn y cylch ADP, gan gynnwys:

   - Bod y Partner ADP yn cyfarfod hefo'r athro ar gychwyn y cylch i gytuno ar Flaenoriaethau Datblygu.
   - Bod pa weithgareddau a chefnogaeth fydd yn cael ei gyflawni gydol y cylch yn cael ei nodi, ynghyd â sut bydd tystiolaeth yn cael ei ganfod a'i adolygu.
   - Bod pob cyfarfod yn cael ei gofnodi gan y Partner ADP ac yr athro yn derbyn copi er gwybodaeth ac i fedru cynnig sylwadau.

10. Na ddylai partner PDR gael gwybodaeth gan unrhyw berson, boed yn ysgrifenedig neu ar lafar, sy'n berthnasol i'r ADP heb eich caniatâd ysgrifenedig penodol. Mae dogfennaeth arfarnu yn gyfrinachol i'r pennaeth, y Partner PDR a'r athro.

11. Dim ond i bennu cyflog rhai athrawon y bydd y ADP cael ei ddefnyddio, sef: y rhai sy'n dymuno cael eu hystyried i symud ymlaen i'r Raddfa Gyflog Uwch, ac y rhai yr ystyrir eu bod wedi cyflawni perfformiad rhagorol.

12. Bod yna hawl i apelio'r adolygiad ADP a'r prosesau a ddilynwyd wrth lunio'r adolygiad.

13. Nad oes cysylltiad uniongyrchol rhwng ADP a gweithdrefnau medrusrwydd. Os yw perfformiad athro yn peri pryder difrifol, a bod tystiolaeth wedi'i darparu i ddangos hyn, yna dylid defnyddio cam anffurfiol y weithdrefn medrusrwydd cytunedig.

14. Bod gweithrediad y polisi a'r broses ADP wedi derbyn asesiad effaith llwyth gwaith ac wedi'i asesu o'r effaith ar gydraddoldeb i sicrhau nad yw'n ychwanegu at lwyth gwaith nac oriau gwaith unrhyw un dan sylw ac nad yw'n rhoi'r rhai â nodweddion gwarchodedig dan anfantais.

Mae Canllawiau Adolygu Datblygiad Proffesiynol Llywodraeth Cymru ar gael yma:

Adolygu Datblygiad Proffesiynol (ADP) – (Hwb Cymru)